

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held
at Remote Meeting on Dydd Gwener, 13eg Tachwedd, 2020 at 10.00 am

YN

BRESENNOL:

CYNRYCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

County Councillors: R.John (Cadeirydd), T.Thomas and A. Webb

CYNRYCHIOLWYR FFYDD:

Revd. Peter Baines

Mrs. S. Gooding

Dr. L. Brown

Mr. A. Szwagrzak

Mrs S. Cave

CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON:

Mr. N. Jenkins

Mrs S. Hamer

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Sharon Randall-Smith

Wendy Barnard

Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

County Councillors P.Pavia

1. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2020.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26ain Mehefin 2020 fel cofnod cywir.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Diweddariad Aelodaeth CYSAG

Ni fu unrhyw newidiadau i'r aelodaeth ers y cyfarfod diwethaf. Mae sawl swydd wag hir sefydlog yn dal i fodoli.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i fynd at y Gwasanaeth Ieuenctid i archwilio'r potensial ar gyfer cynrychiolaeth pobl ifanc ar GYSAG gyda'r bwriad o ddyrannu un o'r swyddi gwag cyfetholedig i'r Fforwm Ieuenctid. S. Randall-Smith i gyflawni'r pwynt gweithredu hwn.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Gwener, 13eg Tachwedd, 2020 at 10.00 am

4. Derbyn ac ystyried Adroddiad Blynyddol 2019-2020 CYSAG

Dyma adroddiad drafft gwaith CYSAG ar gyfer 2019/20 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Awgrymwyd, yn dilyn llythyr o ganllawiau gan y Gweinidog Addysg, y dylid diwygio'r adroddiad i wneud yn glir bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am gynrychiolaeth gan sefydliadau cred anghrefyddol ar GYSAG. Cytunodd y Cynghorydd AG i wirio'r adran hon. Cymeradwywyd yr adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn amodol ar y gwelliannau a awgrymwyd

Manteisiwyd ar y cyfle i ddarparu rhai diweddariadau ar ddatblygiadau ers amserlen yr adroddiad blynyddol:

- Cwricwlwm: Cyflwyno'r cwricwlwm newydd yw 2022 fel y cynlluniwyd. Mae ysgolion yn gweithio ar ddylunio eu cwricwlwm gyda chymorth y GCA pan ofynnir amdano, ac i ddarparu dysgu proffesiynol. Nid yw'r Fframwaith AG wedi'i gyhoeddi eto oherwydd oedi cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith ar y fframwaith i fod yn gydweithredol ac mae CCYSAGauC wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi ei bryderon nad yw CYSAGau wedi cael cipolwg o'r fframwaith ers mis Rhagfyr 2019. Y gobaith yw y bydd CYSAGau yn cael y cyfle hwn cyn y cyfnod 'purdah' cyn etholiadau'r Senedd.

Oherwydd COVID 19, mae ysgolion yn rhoi pwyslais uchel ar ddysgu cyfunol (cynllunio gwersi gan ddefnyddio technoleg, wyneb yn wyneb, rhithwir neu wersi wedi'u recordio ar gyfer myfyrwyr sy'n hunan-ynysu gartref). Dosbarthwyd gwybodaeth am ddysgu cyfunol i'r aelodau.

Cytunwyd bod angen cefnogaeth sylweddol ar Athrawon AG i ddylunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn heriol heb y Fframwaith AG ac mae risg y bydd AG yn cael ei adael ar ôl. Cefnogodd y cynrychiolydd athrawon y farn hon a chroesawu unrhyw gymorth ac eglurder.

- Dysgu Proffesiynol: Mae GCA wedi darparu cefnogaeth i athrawon fel dosbarthiadau meistr dysgu cyfunol, gweminarau a rhestri chwarae a bydd yn cynllunio cefnogaeth bwrpasol i ysgolion sy'n gwneud cais. Mae'r Ysgolion Rhwydwaith Dysgu yn cefnogi'r dyniaethau o'r flwyddyn hon ymlaen. Am y tro cyntaf bydd Cynghorwyr Cynradd. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i ddarparu adnoddau â sicrwydd ansawdd. Mae cyfarfodydd Ysgolion Rhwydwaith Dysgu wedi cael eu cynnal ac mae'r mynychwyr wedi gwahanu i drafod meysydd pwnc arwahanol. Mae oriau'r Cynghorydd AG wedi eu lleihau i ran amser a bydd rôl Ysgolion Rhwydwaith Dysgu yn cynyddu i ddarparu cefnogaeth gydweithredol. Bydd cefnogaeth broffesiynol i CYSAGau yn parhau heb gael ei heffeithio. Bydd CCYSAGauC hefyd yn darparu cefnogaeth ac ar hyn o bryd mae'n ysgrifennu papur briffio ar ddull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ar gyfer AG. Mae cynhadledd ar y gweill hefyd. Croesawyd y dulliau hyn gan gynrychiolydd yr athrawon.
- Cynnwys Cwricwlwm AG: Nododd Aelod fod AG wedi cynnwys Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill ac roedd yn poeni y bydd cynnwys credoau athronyddol eraill yn gwanhau dysgeidiaeth Cristnogaeth. Roedd cynnwys gwerthoedd a moeseg i fod yn bwrpas ar draws y cwricwlwm ac nid yn gyfyngedig i addysg grefyddol. Mae'r newid enw o GYSAGau i GYS wedi'i gynnwys yn y Bil heb ymgynghoriad. Rhannwyd y pryderon ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ymateb yr ymgynghoriad. Disgwylir ymateb gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Gwener, 13eg Tachwedd, 2020 at 10.00 am

- Cefnogaeth i staff: Cydymdeimlodd aelodau CYSAG â staff ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd cynllunio'r cwricwlwm newydd pan fo diffyg eglurder. Mae GCA wedi sefydlu Timau Canolog a bydd pawb sydd â chyfeiriad Hwb yn cael mynediad at yr holl hyfforddiant. Mae clystyrau hefyd yn cronni adnoddau ar eu safleoedd SharePoint. Gwelwyd nad oes unrhyw ysgolion ffydd yn ysgolion Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a ystyriwyd yn gyfle a gollwyd. Penodwyd Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar sail cais; ni ymgeisiwyd unrhyw ysgolion ffydd. Awgrymwyd y bydd llawer o gyfleoedd i gyfrannu hyd yn oed os nad yw ysgol mewn sefyllfa i arwain. Cytunodd Sharon Randall-Smith i drosglwyddo'r neges hon i'r GCA a hefyd i nodi nad yw dwy ysgol gynradd yn ddigonol i godi proffil AG yn y rhanbarth i'r un lefel â phynciau eraill. Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch cefnogaeth i ysgolion.
- Cadarnhawyd bod gwaith ar y gweill i ysgrifennu fframweithiau AG ar wahân gyda'r Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig yn unol â chwricwlwm y Dyniaethau. Mae'r cysyniad o gwricwlwm deul yn dal i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn y Senedd. Gwahoddwyd CCYSAGauC, PYCAG a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig i fynychu'r Pwyllgor ac mae'r cyfranogiad hwn ar gael i'w weld ar deledu'r Senedd.
- Addoliad ar y Cyd: Dosbarthwyd canllawiau ar addoli ar y cyd gan CCYSAGauC yn ystod COVID 19 i ysgolion.
- Diwrnod Cofio'r Holocost (27^{ain} Ionawr 2021): Thema'r flwyddyn nesaf yw "Byddwch y goleuni yn y tywyllwch". Gofynnwyd a oes unrhyw beth wedi'i drefnu yn Sir Fynwy y gall CYSAG fod yn rhan ohono. Bydd y Cynghorydd AG yn atgoffa ysgolion.
- Arholiadau TGAU/Safon Uwch: Ni fydd y rhain yn cael eu cynnal y flwyddyn academaidd hon o blaid asesiad ystafell ddosbarth a reolir gan athrawon a fydd yn cael ei ddilysu'n allanol. Bydd hyn yn cynhyrchu'r angen am fwy o gefnogaeth i ysgolion.
- Estyn: Mae Estyn yn cefnogi ysgolion trwy alwadau ffôn ac ati. Mae arolygiadau yn cael eu gohirio wrth aros am y cwricwlwm newydd. Mae llawer o wybodaeth i ysgolion ar gael ar wefan Estyn.

5. Derbyniad a nodi ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Nodwyd ymatebion yr ymgynghoriad. Cyflwynwyd yr ymateb o fewn yr amserlen angenrheidiol. Lansiodd yr ymarfer ymgynghori yn ystod gwyliau'r Haf pan nad oedd staff ysgolion ac eraill yn gweithio gydag amserlen fer i ymateb. Ystyriwyd bod hyn yn anfodddhaol gan nodi bod llawer o GYSAGau wedi methu ag ymateb.

Diolchodd Aelod i'r Cynghorydd AG am gasglu'r ymateb ar ran CYSAG gan nodi, er bod yr ymateb drafft wedi'i gylchredeg ar gyfer diwygiadau, nad oedd llawer o amser ar gael i ystyried gwneud sylwadau. Gan gydnabod yr amgylchiadau presennol, cadarnhawyd yn y dyfodol, lle bo hynny'n bosibl, y byddai cyfarfod CYSAG o'r holl aelodau neu weithgor yn cael ei drefnu i ystyried ymatebion ymgynghori.

6. Ystyried eitemau ar gyfer Bwletin Newyddion nesaf CYSAG

Gwahoddwyd Aelodau CYSAG i ddarparu erthyglau ar gyfer Cylchlythyr CYSAG.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Gwener, 13eg Tachwedd, 2020 at 10.00 am

7. Busnes CYSAG Cymru

- i. Derbyniwyd a nodwyd y cofnodion drafft o gyfarfodydd CCYSAGauC 21ain Tachwedd 2019 a gynhaliwyd yn Aberaeron.
2. Derbyniwyd a nodwyd y cofnodion drafft o Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 7^{fed} Hydref 2020 (cyfarfod o bell).
3. Derbyniwyd a nodwyd y cofnodion drafft o gyfarfod cyffredin CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 7fed Hydref 2020 (cyfarfod o bell).
4. Derbyn a nodi adroddiad gweithgareddau CCYSAGauC yn ystod 2019-2020
 - Mae CCYSAGauC wedi mynegi pryderon ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru ynghylch diffyg cydweithredu ar Fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moesau.
 - Disgwylir i wefan newydd CCYSAGauC gael ei lansio
 - Mae CCYSAGauC wedi ysgrifennu at CBAC i ofyn am gael gwared ar y ffi arian barod mewn amgylchiadau presennol
 - Mae CCYSAGauC wedi ysgrifennu at bob athro AG yn cydnabod yr amseroedd anodd ac yn cynnig ei gefnogaeth ef a chefnogaeth y CYSAG lleol. Roedd Aelodau CYSAG o blaid anfon y llythyr.
 - Mae CYSAG wedi darparu cyllid ar gyfer adnoddau dysgu cyfunol
 - Mae CYSAG wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol i arolygu faint sydd wedi penodi cynrychiolwyr anghrefyddol i'w CYSAG.
 - Bydd adroddiad ymchwil ar Fydolygon a luniwyd gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr yn cael ei anfon at aelodau CYSAG i gael gwybodaeth. Mynegwyd pryder y bydd cynnwys barn, gwerthoedd a moeseg y byd a safbwyntiau athronyddol eraill yn lleihau cynnwys crefyddol yn is nag unrhyw le yn y byd. Roedd yr aelodau hefyd yn cynnig sicrwydd na fyddai diffyg pwyslais ar grefydd, ac y bydd barn y byd, yn ymarferol am nifer o flynyddoedd, yn ymwneud â chrefyddau.
 - Esboniwyd y bydd y datganiadau "Beth sy'n Bwysig" yn ymwneud â'r Dyniaethau ac y byddant yn cael eu harwain gan staff addysgu proffesiynol i roi golwg gytbwys
5. Nodi dyddiadau cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth:
 - Gwanwyn - Caerffili (i'w gadarnhau)
 - Haf - Powys (i'w gadarnhau)

8. Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf CYSAG, a chyfarfodydd ar gyfer 2020 - 2021.

Y cyfarfod diwedd yn 11.17 am